*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y GYMRAEG

# Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau").

Mae adran 25 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon, a bennir gan Weinidogion Cymru, os yw'r person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau a bod y safon yn gymwysadwy i'r person, yn ogystal â bod amodau eraill yn cael eu bodloni.

Mae adran 26 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson drwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon ("hysbysiad cydymffurfio").

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 ("y Rheoliadau Safonau") yn pennu safonau. Mae'r Rheoliadau Safonau hefyd yn awdurdodi'r Comisiynydd (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol) i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn perthynas â safonau a bennir gan y Rheoliadau Safonau, i amryw gyrff.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Safonau er mwyn awdurdodi’r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio, mewn cysylltiad â’r safonau a bennir yn y Rheoliadau Safonau, i gyrff ychwanegol.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2025. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Gorchymyn hwnnw a’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol sy’n ymdrin â’r Rheoliadau hyn a’r Gorchymyn hwnnw. Gellir cael copi oddi wrth: Is-adran Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2025 Rhif (Cy. )

# Y GYMRAEG

## Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *28 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), ac wedi cael cymeradwyaeth Senedd Cymru(**2**) yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Mawrth 2025.

**Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) 2011 mccc 1.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 150(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2015/996 (Cy. 68), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/1352 (Cy. 351).

(2) Yn rheoliad 1(4), yn y diffiniad o “corff”, ar ôl “cyd-bwyllgor corfforedig” mewnosoder “, Awdurdod Cyllid Cymru”.

(3) Ar ôl rheoliad 3(2) mewnosoder—

“(3) Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i Awdurdod Cyllid Cymru sy’n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o’r safonau a ganlyn a bennir o dan reoliad 2—

(a) 1 i 144;

(b) 147 i 172;

(c) 175 a 176.”

**Diwygio Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 2) 2016**

**3.** Yn Atodlen 6 i Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 2) 2016(**1**), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“Comisiwn Ffiniau i Gymru (“*Boundary Commission for Wales*”)”;

“Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru (“*Future Generations Commissioner for Wales*”)”;

“Cymwysterau Cymru (“*Qualifications Wales*”)”;

“Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa’r Dreftadaeth Genedlaethol (“*Trustees of the National Heritage Memorial Fund*”)”.

**Diwygio Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 4) 2016**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 4) 2016(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(2)(a), o flaen “Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru” mewnosoder “Panel Dyfarnu Cymru,”.

(3) Yn Atodlen 6, yn y lle priodol mewnosoder “Panel Dyfarnu Cymru (“*Adjudication Panel for Wales*”)”.

**Diwygio Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 6) 2017**

**5.** Ar ôl rheoliad 3(4) o Reoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 6) 2017(**3**) mewnosoder—

(**1**) O.S. 2016/182 (Cy. 76), a ddiwygiwyd gan adran 72 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (dccc 3) a chan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4).

(**2**) O.S. 2016/405 (Cy. 125), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/441 (Cy. 77).

"(5) Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safonau 90 a 90A a bennir o dan reoliad 2 ac Atodlen 1."

**Diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018**

**6.**—(1) Yn rheoliad 1(4) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018(**1**)—

(a) yn y diffiniad o "clinig gwasanaeth iechyd gwladol", yn lle "neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol" rhodder ", Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu Awdurdod Iechyd Arbennig";

(b) yn y diffiniad o "ysbyty gwasanaeth iechyd gwladol", yn lle "neu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol" rhodder ", Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol neu Awdurdod Iechyd Arbennig".

(2) Yn Atodlen 6, yn y lle priodol mewnosoder "Awdurdodau Iechyd Arbennig ("*Special Health Authorities*")".

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**3**) O.S. 2017/90 (Cy. 33), a ddiwygiwyd gan baragraff 40 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).

(**1**) O.S. 2018/441 (Cy. 77), a ddiwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (dsc 1) a pharagraff 16 o Atodlen 3 iddi.